

DAD NEFOL

Rydym yn gofyn i ti weithredu'n nerthol
i atal lledaeniad y feirws
ac i wella'r rhai sy'n dioddef

Cyflwynwn ddyfodol pobl ein gwlad a'n byd
a dyfodol busnesau bach a mawr
gan weddio y cant hwy eu hadfywio a'u sefydlogi
wedi cyfnod ar gau

Gweddïwn arnat i roi i'th eglwys yma yng Nghymru
fywyd newydd ac arweiniad newydd
a nertha hi i ddyfalbarhau.

Mewn cyfnod pan cawn ein temtio i anobeithio,
helpa ni ddisgwyl yn eiddgar am ateb i'n gweddïau
ac i ymddiried ein dyfodol a dyfodol ein byd i ti.

Clyw ein gweddi
yn enw ein Harglwydd Iesu Grist.

AMEN

